


**CYNGOR ARCHIFAU A CHOFNODION CYMRU**

# Agor yr Archifau

## DATHLU ARCHIFAU YNG NGHYMRU




## Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd

Beth gall gwasanaethau archifau ei wneud i chi?

Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru

Mynediad Ar-lein – Dod â'r Archifau Atoch Chi

#CrowdCymru

Eich Archif - yn adlewyrchu cynulleidfaoedd amrywiol

Dod â Hanes yn Fyw – Gweithio gyda Chymunedau

Cadw'r Gorffennol a'r Presennol i'r Dyfodol

Cofnodion mewn Perygl

Cefnogi ein Gweithlu

Achrediad – Beth mae'n ei olygu?

Mynegai a Map o Wasanaethau Archifau yng Nghymru

Delwedd clawr: Trwy garedigrwydd Archifau Morgannwg

## Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf eich cyflwyno i ail rifyn "Agor yr Archifau", llyfryn dathlu a gynhyrchir gan Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru (CACC) sy'n tynnu sylw at y gwaith gwych a wneir gan wasanaethau archifau yng Nghymru.

Ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf yn 2016, mae gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn greiddiol i bopeth yr ydym yn ei wneud, meithrin cysylltiadau ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn i'n partneriaid allu cydweithio i hyrwyddo gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o dreftadaeth archifol unigryw Cymru.

Amlinella'r llyfryn hwn sut y mae CACC wedi cefnogi gwaith gwasanaethau archif ar draws Cymru wrth gaffael, diogelu, a sicrhau bod dogfennau gwerthfawr ar gael sy'n cynrychioli ein hanes ni, a hanes ein cenedl ar y cyd. Mewn cyfnod wedi'i ddominyddu gan heriau niferus, gan gynnwys cyfyngiadau COVID-19 a chyfnodau clo, rydym yn hynod falch o bopeth y mae ein cydweithwyr ar draws Cymru wedi'i gyflawni.

**Laura Cotton**
Cadeirydd 2022-24




## Beth gall gwasanaethau archifau ei wneud i chi?

Mae archifau'n helpu i adrodd stori ein gorffennol a diogelu ein cof ar y cyd a'n hunaniaeth ddiwylliannol. Maen nhw'n casglu ac yn gofalu am gofnodion o'ch bywyd, eich cymuned, eich busnes, eich cenedl a'ch byd, gan eu gwneud yn hygyrch. Mae archifau yn cynnig gwybodaeth neu dystiolaeth o lygad y ffynnon am ddigwyddiadau neu ffigurau hanesyddol, a gallant gynnwys eitemau megis llythyrau, adroddiadau, cofrestrau, mapiau, ffotograffau a ffilmiau, ffeiliau digidol a recordiadau sain. Mae gwasanaethau archifau yng Nghymru yn agos atoch chi, ac mae'r llyfryn hwn yn sôn mwy wrthych chi amdanynt, ac am eu gwaith a'u llwyddiannau diweddar.


## Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru

Sefydlwyd Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru ym mis Mai 1995 fel corff cynrychioladol i fudiadau a sefydliadau Cymru gyfan sy'n gysylltiedig â gofalu am archifau. Nodau CACC yw:

1. Dylanwadu ar bolisi ynglŷn ag archifau yng Nghymru.
2. Dwyn at sylw'r cyhoedd, y llywodraeth neu fudiadau neu sefydliadau perthnasol, faterion sydd o ddiddordeb ar hyn o bryd ym maes archifau yng Nghymru.
3. Cynnig ffocws i brosiectau cydweithredol ym maes archifau yng Nghymru.
4. Dwyn ynghyd fudiadau a sefydliadau sy'n gysylltiedig â gweinyddu archifau yng Nghymru a chynnig fforwm iddynt gyfnewid barn yn rheolaidd.

Mae'r Fforwm CACC blynyddol, a gynhelir diolch i ariannu gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig cyfle i staff o'r gwasanaethau archifau ar draws Cymru i gwrdd, gwrando a thrafod pob math o faterion sy'n berthnasol i'w gwaith.

Mae CACC hefyd yn rheoli cynlluniau grant i gefnogi gwaith gwasanaethau aelodau wrth ddiogelu a chynnig mynediad i adnoddau archifol. Mae'r Cynllun Grantiau Cynnal Achredu yn cefnogi gwasanaethau archifau cymwys i gyflawni neu gynnal y Safon Achredu Gwasanaethau Archifau, ac i ddatblygu a gwella eu gwasanaethau i'r cyhoedd a gofalu am eu casgliadau. Gall cyllid grant gefnogi gofalu am gasgliadau, datblygu gweithlu, cyfranogi cymunedol a phrosiectau datblygu cynulleidfaoedd. Ariennir y cynlluniau grant hyn gan Lywodraeth Cymru.



## Mynediad Ar-lein
## Dod â'r Archifau Atoch Chi

### CHWILIO ARCHIFAU CYMRU

Un o brif amcanion CACC yw gwella mynediad ar-lein at adnoddau archifol. Mae'r safle newydd hwn yn galluogi defnyddwyr i chwilio trwy gatalogau cofnodion archifol a gynhelir mewn ystorfeydd ar draws Cymru, gan ddefnyddio data o UK Archives Hub. Trwy ddefnyddio geiriau allweddol a disgrifiadau chwilio o archifau gellir canfod ffynonellau unigryw ar gyfer eich ymchwil, gan gynnwys dolenni at gynnwys digidol.

Mae'r Archives Hub yn cynaeafu ac yn diweddaru'n rheolaidd ei gopïau o gofnodion catalog aml-lefel o 22 o sefydliadau partner ar draws Cymru, ac yn ei dro bydd yn cynnwys holl gatalogau ar-lein o bob sefydliad. Cynhelir gwefan Chwilio Archifau Cymru ar ran CACC gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

https://chwilioarchifau.llyfrgell.cymru/





## #CrowdCymru

Mae **#Crowd Cymru** yn brosiect cyfrannu torfol digidol a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a'i gynnal ar y cyd gan Archifau Gwent, Archifau Morgannwg ac Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Caerdydd.

Gan ei gyrchu trwy lwyfan cyfrannu torfol a sefydlwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, bydd y system ddigidol ddwyieithog hon yn galluogi gwirfoddolwyr pell i dagio, anodi a disgrifio'r casgliadau treftadaeth digidol sydd o fewn yr ystorfeydd hyn. Mae gwasanaethau Archif ar draws Cymru yn cadw miliynau o gofnodion unigryw, ond ychydig ohonynt sydd wedi'u cofnodi'n ddigonol ac felly maen nhw'n anodd eu hadnabod a'u canfod. Bydd y prosiect hwn yn harneisio gwybodaeth unigolion o fewn cymunedau ar draws Cymru a'r tu hwnt, i gyfoethogi ein treftadaeth ar y cyd er budd cenedlaethau yn awr ac yn y dyfodol – yn lleol, yn genedlaethol, ac yn fyd-eang.

Mae'r prosiect hwn yn gwbl ddigidol, ac ar gael i unrhyw un, unrhyw le yn y byd os oes ganddynt fynediad at Wi-Fi. Hefyd, mae gwirfoddolwyr yn rheoli faint y maen nhw'n dymuno ei gyfrannu - boed fawr neu fach. Gobeithir ymgysylltu â diddordebau'r rheini a allai fod eisiau gwirfoddoli gydag archifau De Cymru ond nad ydynt yn gallu teithio i'r safleoedd, ac yn enwedig y rheini sydd â diddordeb yn nhreftadaeth Cymru ond yn byw dramor.

Mae'r partneriaid wedi sicrhau bod amrywiaeth eang o gasgliadau cyffrous ar gael ar gyfer y prosiect. Mae Archifau Morgannwg wedi cyflwyno Ffotograffau Cymunedol Dociau Caerdydd. Mae'r rhain yn bortreadau o unigolion a grwpiau, o gymuned dociau Caerdydd, a gymerwyd rhwng 1900 a 1920. Cymerwyd llawer ohonynt gan Fred Petersen o Stryd Bute, dyn o Ddenmarc a setlodd yng Nghaerdydd rywbryd ar ddiwedd y 19eg ganrif. Mae Casgliadau ac Archifau Arbennig Prifysgol Caerdydd wedi cyflwyno tri chasgliad. Dau ar gyfer trawsgrifio; Archif Edward Thomas [archif personol anarferol o eang a manwl o un o feirdd rhyfel a laddwyd ar faes y gad yn y Rhyfel Byd Cyntaf] a dyddiaduron cyfnod y rhyfel Priscilla Scott-Ellis [a ysgrifennwyd wrth weithio mewn ysbyty milwrol yn ystod Rhyfel Cartref Sbaen, ac yn Llundain yn ystod y Blits]. Mae Archifau Gwent wedi cyflwyno casgliad o ffotograffau hiraethus o ddyddiadau cynharaf Clwb Athletau a Rygbi Casnewydd sy'n dyddio yn ôl i 1891. Bwriada'r partneriaid sicrhau fod mwy o gasgliadau ar gael wrth i'r prosiect ddatblygu.

Defnyddia #CrowdCymru gyfrif Twitter gweithgar [@CrowdCymru] i hyrwyddo cynnydd, tynnu sylw at gasgliadau a meithrin cefnogaeth dros gyfrifon archifau, llyfrgelloedd, amgueddfeydd a threftadaeth eraill.



I gymryd rhan neu i glywed mwy am y prosiect, cysylltwch â:
Vicky Jones,
ARCW Business and Training Manager,
vicky.jones@llyfrgell.cymru
01970 643546
@crowdcymru








# Eich Archif – yn adlewyrchu cynulleidfaoedd amrywiol

Mae Cymru yn genedl amrywiol, ac mae profiadau a straeon byw pobl o wahanol gefndiroedd a chymunedau diwylliannol i'w cael mewn dogfennau, ffotograffau, lluniau, arteffactau a deunydd clyweledol lluosog.

Dyfarnwyd cyllid yn ddiweddar i Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru i gwblhau cam cyntaf prosiect i wella ymwybyddiaeth o, a mynediad at, gasgliadau diwylliannol ar gyfer pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Yr amcan oedd creu sylfaen gadarn i ddatblygu casgliadau gyda'r cymunedau hynny, gan sicrhau bod eu profiad byw yn rhan annatod o'n cofnod cenedlaethol.

Mae'r cam cyntaf hwn bellach wedi'i gwblhau, a'r canlyniad yw pecyn cymorth pwrpasol i gefnogi'r sector yn ei waith gyda'i gasgliadau a'i gymunedau. Mae hyn yn cynnwys arolwg o fethodoleg i adnabod deunyddiau o ystorfeydd archifol, casgliadau arbennig llyfrgelloedd ac amgueddfeydd sy'n adlewyrchu profiadau byw pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ar draws Cymru, a map trywydd, sy'n amlinellu rhaglen o weithgaredd yn y dyfodol.

Bydd yr allbynnau hyn yn dwyn ynghyd yr arfer gorau wrth weithio gyda chasgliadau a chymunedau a chynnig man cychwyn ar gyfer rhaglen ehangach o waith a fydd yn galluogi i bobl ddysgu am ddiwylliant unigryw, amrywiol a gwerthfawr Cymru a datgelu lleisiau newydd a straeon heb eu hadrodd.

Gallwch ddarllen mwy am y prosiect a lawrlwytho'r Pecyn Cymorth a'r fethodoleg Arolwg o'r dudalen a ganlyn: https://archifau.cymru






Mae canllaw dwyieithog ar gyfer Hanes LHDTC+ wedi'i gyhoeddi gan Archifau Morgannwg, diolch i grant gan CACC.




**Lluniwyd Morgannwg Hoyw: Canllaw Ymchwil ar Ffynonellau ar gyfer Astudio Hanes Pobl LHDTC** gan Norena Shopland a Dr Daryl Leeworthy i gynorthwyo ymchwilwyr a haneswyr wrth astudio hanes lesbaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol a chwiar gyda'r prif nod o annog gwell dealltwriaeth o brofiadau hanesyddol a chyfoes LHDTC+. Bwriad y canllaw yw ysbrydoli gwaith pellach yn y maes hwn, a gweithredu fel anogwr i unigolion a grwpiau ymgyrchu LHDTC+ ystyried adneuo eu cofnodion fel bod modd dogfennu profiad LHDTC+ yn ei gyfanrwydd.




Ers ei gyhoeddi, mae'r canllaw wedi profi llwyddiant anferth. Mae'r canllaw wedi'i gyrchu dros 2,500 o weithiau a'i rannu fel adnodd gan sawl sefydliad yn y DU a thu hwnt, yn enwedig yn ystod misoedd hanes rhyngwladol. Mae wedi'i ddefnyddio hefyd fel sail i gyflwyno sesiynau hyfforddi dwyieithog i weithwyr proffesiynol archifau, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd ar draws Cymru a'r tu hwnt, i adnabod, chwilio ac arddangos cynnwys LHDTC+ mewn deunydd hanesyddol.



Defnyddiwyd y canllaw hwn fel adnodd yn hyfforddiant Iaith a Hanes LHDTC+ Llywodraeth Cymru ar gyfer pob amgueddfa, llyfrgell ac archif yng Nghymru. Y llywodraeth gyntaf yn y byd i ddarparu hyfforddiant o'r fath. Hyfforddir cyfranogwyr i ddeall yr iaith gymhleth a ddefnyddir i adnabod pobl LHDTC+, a'u cynghreiriaid a digwyddiadau yn y cofnod archifol, sut i gyhoeddi'r cynnwys hwnnw, sut i ymgysylltu â chymunedau lleol, a sut i ddefnyddio archifau i gyflwyno deunydd lleol i ddisodli naratif generig.



# Dod â Hanes yn Fyw

Mae archifau yn adnodd diwylliannol cyfoethog a gallant gynnig cyfleoedd dysgu i bobl o bob oed a chefndir, gwella profiad byw a mynd i'r afael â thlodi diwylliannol. Mae gwasanaethau archifau ar draws Cymru wedi rheoli nifer o brosiectau llwyddiannus sy'n ymgysylltu â'r gymuned, gan ddefnyddio cyllid gan gynlluniau grantiau Cynnal Achredu CACC i gefnogi ystod eang o brosiectau arloesol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd.


## Pollecoffs a Steins

Creodd blant yn Ynys Môn waith celf wedi'i ysbrydoli gan deuluoedd Iddewig sydd wedi ymgartrefu ar yr ynys diolch i arian grant CACC ar gyfer prosiect Pollecoffs a Steins Archifau Ynys Môn. Gan ddefnyddio dogfennau archifol ac arteffactau amgueddfeydd, cafodd disgyblion o Ysgol Gynradd Amlwch eu tywys ar eu siwrnai i'r gorffennol gan Archifau Ynys Môn, Oriel Môn ac artist amlwg o Ogledd Cymru, Jwls Williams. Dilynodd y plant stori'r teuluoedd Pollecoff a Stein, a ddaeth o Rwsia ar ddiwedd y 19eg ganrif a ffynnu ar ôl agor siopau dillad yng Nghaergybi ac Amlwch.

Wrth agor arddangosfa o'u gwaith yn adeilad yr archifau yn Llangefni, dywedodd y Margaret Roberts, cyn-gadeirydd Cyngor Ynys Môn, am y prosiect "nid yn unig mae'n dathlu ein hanes lleol, ond hefyd yn addysgu pwysigrwydd goddefgarwch, amrywiaeth a chofleidio pobl o bob cefndir".




Dywedodd fod y ddau deulu wedi dod yn "rhan bwysig o'u cymunedau unigol, aethant ati i ddysgu Cymraeg, ac fe'u croesawyd gan eu cymdogion newydd."



## Hen Siwtces Tolciog yn yr Atig

Dyfarnwyd grant i Archifau Ceredigion am brosiect i annog y cyhoedd i archwilio a gwerthfawrogi eu harchifau personol eu hunain fel rhan o gyfres o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos Archwilio eich Archif.


Roedd 'Hen Siwtces Tolciog yn yr Atig' yn brosiect i annog pobl a chymunedau i chwilio am eitemau a oedd o bosibl yn gudd neu wedi'u hesgeuluso a'u gwerthfawrogi fel cofnod unigryw o'r gorffennol. Cafodd y rhai a fynychodd y gweithdai gyfle i ddysgu technegau cadwraeth sylfaenol a derbyn blwch archif am ddim i helpu i gadw papurau gwerthfawr yn ddiogelach. Trwy annog pobl i ofalu am yr eitemau hyn, roedd hefyd yn gyfle i atgoffa pobl y gallai eu harchifau eu hunain ryw ddiwrnod ffurfio rhan o'r casgliadau i gael eu gwerthfawrogi gan genedlaethau'r dyfodol. Fe helpodd gwaith ychwanegol ar y cyd â Gweinyddiaeth yr Archif i ôl-raddedigion dynnu sylw at amrywiaeth o gasgliadau a'u cyflwyno i genhedlaeth newydd o ymchwilwyr.

## Parhad Dod â Hanes yn Fyw

Yn ystod pandemig Covid-19 2020, datblygodd wasanaethau ffyrdd newydd o ymgysylltu â defnyddwyr, wrth i fynediad corfforol gael ei rwystro gan gyfnodau clo a chyfyngiadau. Cefnogwyd y symudiad tuag at fynediad digidol gan CACC, a ddarparodd gyllid i wasanaethau aelodau hyfforddi staff mewn creu cynnwys digidol ac adrodd straeon yn ddigidol, ac i brynu cyfarpar hanfodol i greu cynnwys digidol ar gyfer ei rannu ar-lein.







© ffotoNant

## Ailddarganfod Merched: Straeon o Archifau Gogledd-ddwyrain Cymru

Dyfarnwyd grant i Archifau Gogledd-ddwyrain Cymru i weithio ochr yn ochr â Theatr Clwyd i greu ffilmiau ar ffurf monolog i ail-adrodd straeon cyffrous menywod cryf ac ysbrydoledig y ddeunawfed ganrif, y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Seiliwyd y straeon ar fenywod go iawn a ddarganfuwyd yn y casgliadau archif a gedwir yn Rhuthun a Phenarlâg; Prifathrawes a oedd wedi ymroi ei hun i addysg; Gweddw glöwr a laddwyd yn nhrychineb pwll glo Gresffordd; Mam yn myfyrio ar iselder ôl-enedigol; a'r enwog Marged ferch Ifan.

Dywedodd Sarah Roberts, archifydd o Archifau Gogledd-ddwyrain Cymru: "Fel arfer byddem yn cynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd tua'r amser yma'r flwyddyn, ond rydym wedi gorfod meddwl yn fwy creadigol eleni oherwydd cyfyngiadau cyfredol COVID am sut y gallwn ddefnyddio a hyrwyddo ein casgliadau hyfryd. Mae wedi bod yn brofiad cyffrous gweithio gyda Theatr Clwyd ar rywbeth mor wahanol. Gobeithio y bydd hyn yn ysbrydoli eraill sy'n adrodd straeon a chynhyrchu ffilmiau i seilio eu gwaith ar gasgliadau archif lle bynnag y maen nhw wedi'u lleoli".

Dywedodd Gwennan Mair, Cyfarwyddwr Ymgysylltu Creadigol yn y Theatr "Mae wedi bod yn hynod ddiddorol gweithio gyda'r archif ar y prosiect hwn. Mae wedi galluogi inni ganfod straeon cudd o Ogledd Cymru. Gobeithiwn weithio mewn partneriaeth eto â'r archif i ddod â straeon yn fyw a rhannu ein hanes unigryw â'r byd mewn ffordd greadigol".

Dywedodd Eleri B. Jones, Cyfarwyddwr Ail-ddarganfod Menywod a Chyfarwyddwr Dan Hyfforddiant yn Theatr Clwyd "Mae ail-ddarganfod straeon y menywod hyn mewn partneriaeth ag Archifau Gogledd-ddwyrain Cymru wedi bod yn brofiad sydd wedi agor ein llygaid ac yn un cwbl bleserus. Yn rhy aml mae straeon hanesyddol, gwledig a lleol yn cael eu hanghofio neu eu claddu, yn enwedig pan ddaw hi at fenywod blaengar, cyffredin fel y rhai yn ein ffilmiau. Mae dychmygu bywyd o'u safbwynt a rhoi llais i'r doethineb sy'n parhau'n berthnasol heddiw wedi bod yn fraint".

## Defnyddio Ffynonellau Archifol mewn Gweithdai

Ymwelodd grŵp o wirfoddolwyr o Eiriolaeth eich Llais ag Archifau Richard Burton am weithdy ar hanes anabledd.

Gan weithio gydag archifwyr ac academyddion o Brifysgol Abertawe, defnyddiodd y grŵp ffynonellau archifol megis gohebiaeth, adroddiadau a phamffledi o Gasgliad Meysydd Glo De Cymru, a ffotograffau o Gasgliad Ffotograffig Raissa Page.

Canolbwyntiodd y gweithdy ar archwilio sut y mae pobl ag anableddau yn cael eu cynrychioli yn yr Archifau – roedd hefyd yn ymchwilio i themâu cysylltiedig megis adsefydlu, llesiant, a gwaith cymdeithasol. Rhan allweddol o'r gweithdy oedd edrych ar ddatblygiad terminoleg anabledd; a sut y mae pethau wedi newid (neu beidio).

Dywedodd Sandi Mitchell, Eiriolwr Cyfoed yn Eiriolaeth Eich Llais:

"Fe wnaeth yr aelodau a fynychodd fwynhau cymryd rhan yn fawr. Roeddynt yn mwynhau edrych ar y lluniau ac er bod rhai ohonynt yn eithaf torcalonnus, roeddynt yn teimlo'i fod yn dangos sut y mae pethau wedi newid. Eu rhyddid i ddechrau. Roedd llymdra'r adroddiadau, yr iaith a ddefnyddiwyd a'r ffaith bod llawer o'r rhwystrau a oedd yn atal pobl rhag gwireddu eu llawn botensial yr un peth heddiw ag yr oeddynt ddeugain mlynedd yn ôl yn eithaf cywilyddus."



# Cadw'r Gorffennol a'r Presennol i'r Dyfodol

Mae Cadwraeth a Chadwedigaeth Ddigidol yn diogelu deunyddiau archif er mwyn iddynt barhau yn hygyrch ac ar gael i bawb sy'n dymuno eu darganfod a'u defnyddio, ac mae hefyd yn sicrhau eu bod yn cael eu cadw i'w defnyddio gan genedlaethau'r dyfodol.

Cadwraeth yw'r broses o atgyweirio dogfennau a chofnodion ffisegol; Cadwedigaeth ddigidol yw cynnal cofnodion ar ffurf ddigidol er mwyn iddynt barhau'n hygyrch ac yn ddarllenadwy wrth i dechnolegau newid.

Mae'r rhan fwyaf o ddaliadau archif yn parhau ar ffurf analog - hynny yw, papur, memrwn neu gyfryngau ffotograffig. Mae cadwraeth y deunydd hwn yn gofyn am sgiliau a chyfarpar arbenigol, ac mae gan nifer o wasanaethau archif ledled Cymru stiwdios cadwraeth â staff proffesiynol.

Mae grantiau CACC wedi darparu cyllid i wasanaethau gynnal Arolygon Asesu Cadwraeth. Defnyddir yr arolygon hyn i berfformio 'gwiriad iechyd' ar gyfer sefydliadau sy'n dymuno asesu cyflwr cadwraeth eu casgliadau, ac sy'n canolbwyntio'n bennaf ar feysydd megis: mynediad, defnydd, llety, defnyddioldeb, arwyddocâd a chyflwr. Mae hyn yn cefnogi gwasanaethau i sefydlu blaenoriaethau ar gyfer camau cadwraeth wrth fodloni gofynion casglu Safon Achredu Gwasanaeth Archifau.

Mae grantiau CACC wedi'u defnyddio hefyd i brynu cyfarpar arbenigol i helpu gyda diogelu a chadwraeth, ac i gefnogi hyfforddiant a datblygu sgiliau ar gyfer staff cadwraeth megis mynychu'r Rhaglen Eirioli Cadwraeth Hyderus a chwrs Iechyd a Diogelwch ICON ar gyfer Gwarchodwyr.





Gyda chyflymdra newidiadau technolegol yn peryglu mynediad parhaus at gofnodion digidol, mae cadw deunydd digidol yn parhau yn amcan allweddol ar gyfer CACC. Fel y nodir yn y Polisi Cenedlaethol ar Gadwedigaeth Ddigidol, mae parhau â mynediad at gofnodion digidol yn gofyn am gyfuniad o dechnoleg, sgiliau, adnoddau a chefnogaeth sefydliadol.

Cynlluniwyd Diogelu'r Didau, rhaglen hyfforddi ryngweithiol a gyflwynir ar-lein, i feithrin sgiliau trwy gyfnewid gwybodaeth ac arddangosiadau ymarferol i gynorthwyo wrth ddatblygu llif a phrosesau gwaith.

Cyflwynwyd chwe sesiwn gan staff gyda gwybodaeth strategol ac ymarferol amrywiol. Mynychodd dros 100 o bobl y sesiynau, gan gynnwys o CACC, y sectorau llyfrgell, amgueddfa, academaidd a chyhoeddus eraill. Mae adnoddau ar gael ar safle Archifau Cymru ac yn cynnwys fideos, dogfennau ac adnoddau i alluogi cadwedigaeth ddigidol gynaliadwy trwy drosglwyddo gwybodaeth, meithrin sgiliau ac fel offeryn ar gyfer eiriolaeth.

Roedd y rhaglen yn adeiladu ar waith y Grŵp Cadwedigaeth Ddigidol ac fe'i cydnabuwyd am ei gwerth trwy dderbyn Gwobr Cydweithio Cadwedigaeth Ddigidol 2022 ar gyfer Addysg a Chyfathrebu. Dyma'r adborth gan y panel asesu:

"Mae'r prosiect hwn yn cyflwyno hyfforddiant cadwedigaeth ddigidol ystyrlon, cynnwys trawiadol a ffordd ddefnyddiol i ganoli hyfforddiant mewn ymateb i bandemig Covid. Mae argaeledd deunyddiau hyfforddi ar-lein yn strategaeth wych ar gyfer cyfathrebu ac eirioli. Cyfraniad gwych at gyfoethogi sgiliau cadwedigaeth ddigidol myfyrwyr"









# Cofnodion mewn Perygl

Canolbwyntiodd y prosiect Cofnodion mewn Perygl, a ariannwyd gan Gronfa Archifau Covid-19 yr Archifau Cenedlaethol, ar y peryglon i gofnodion a gynhelir y tu allan i ystorfeydd archif, gan gynnwys cofnodion busnes ac elusennol yn benodol.

Cafodd pecyn cymorth ar-lein dwyieithog gydag adnoddau a chanllawiau ar arolygu cofnodion a monitro risgiau ei ddatblygu a'i gyhoeddi ar wefan Archifau Cymru. Mae'n cynnwys offer i alluogi gwasanaethau archif i arolygu a monitro yn eu hardaloedd lleol neu o fewn cylch gwaith casgliadau ar sail pwnc.

Mae'r pecyn cymorth Cofnodion mewn Perygl yn cynnwys trosolwg o'r broses o achub cofnodion busnes sy'n fregus oherwydd cyfyngder ariannol, gan ymdrin â'r cyfnodau ymchwil a monitro hyd at gaffael cofnodion gan gwmni sy'n fethdalwr. Mae'n cynnwys canllawiau ar derminoleg ansolfedd corfforaethol, gan gynnwys y termau pwysicaf ar gyfer archifyddion, a chyngor ar sut i gysylltu ag ymarferwyr ansolfedd. Mae'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys Adnoddau Arolygu Cofnodion, megis canllawiau ar sut i gynnal arolygon o bell o gofnodion sefydliadau allanol megis elusennau a busnesau, a dolenni at adnoddau allanol ychwanegol am arolygu cofnodion yn ehangach. Comisiynwyd Canllawiau Rhagarweiniol i Gadwedigaeth Ddigidol ar gyfer Busnesau Bach gan CACC a'u datblygu gan y Gynghrair Cadwedigaeth Ddigidol.

Amlinella'r canllawiau hyn arwyddocâd cadw cofnodion digidol ac mae'n cynnig cyngor ac enghreifftiau ymarferol ar sut y gall busnesau bach ddiogelu eu cofnodion digidol.

Mae'r pecyn cymorth, a chofrestr datblygu casgliadau sy'n helpu pobl i adnabod y lleoliadau mwyaf addas i gartrefu archifau ledled Cymru, ar gael ar-lein o: https://archifau.cymru









## Cefnogi Ein Gweithlu


Mae datblygu staff, eu harbenigedd a'u sgiliau yn sail i bob agwedd ar waith gwasanaeth archif. Amcan CACC yw cefnogi'r gweithlu wrth weithio'n arloesol, caffael sgiliau a hyfforddiant i ymateb i anghenion sector. Mae Cynllun Grant Datblygu Gweithlu CACC yn cynnig cefnogaeth ariannol ar gyfer hyfforddiant a datblygiad proffesiynol perthnasol.

## Achrediad – Beth mae'n ei olygu?

Mae Achrediad Gwasanaethau Archifau yn gynllun safonau'r DU ar gyfer gwasanaethau archif a gefnogir gan bartneriaeth sy'n cynnwys Archifau Cenedlaethol (TNA) yn Kew a Llywodraeth Cymru. Edrycha'r Safon ar sut mae gwasanaethau archifau yn caffael, yn cadw ac yn cynnig mynediad i'w casgliadau dros y tymor hwy, trwy reoli risgiau a thrwy gynllunio ar gyfer newid.

Mae Achrediad Gwasanaethau Archifau hefyd yn cynrychioli llwybr at ddatblygiad parhaus y gwasanaeth. Mae gwasanaethau archifau achrededig yn cyflwyno o fewn fframwaith o safonau a gydnabyddir yn broffesiynol, wedi'u cefnogi gan adnoddau a strwythurau rheoli effeithiol.

## Mynegai a Map o Wasanaethau Archifau yng Nghymru




1. Prifysgol Aberystwyth, Archifau a Chasgliadau Arbennig
2. Archifau Ynys Môn
3. Prifysgol Bangor, Archifau a Chasgliadau Arbennig
4. Prifysgol Caerdydd, Casgliadau Arbennig ac Archifau
5. Archifau Sir Gaerfyrddin
6. Archifdy Ceredigion
7. Gwasanaeth Archifau Conwy
8. Archifau Morgannwg
9. Archifau Gwent
10. Gwasanaeth Archifau Gwynedd – Archifdy Caernarfon
11. Gwasanaeth Archifau Gwynedd – Archifdy Meirionnydd
12. Llyfrgell Genedlaethol Cymru
13. Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru
14. Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru, Penarlâg
15. Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru, Rhuthun
16. Archifau ac Astudiaethau Lleol Sir Benfro
17. Archifau Powys
18. Llyfrgell ac Archifau Roderic Bowen, Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant
19. Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
20. Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
21. Prifysgol Abertawe, Archifau Richard Burton
22. Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg
23. Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg – Archifau Cymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd
24. Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam